Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Effaith RHAGORI

Arfarniad o effaith cyllid RHAGORI ar effeithiolrwydd ysgolion wrth fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawni.
Adroddiad interim ar ôl y 18 mis cyntaf

Gorffennaf 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru 1
Disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim 1
Menter RHAGORI 2
Diben yr adroddiad 5

Prif ganfyddiadau **6**

Argymhellion **8**

Yr effaith ar safonau **9**

Yr effaith ar gyflawniad a chynnydd 9
Yr effaith ar agwedd, ymddygiad a medrau 10
Perfformiad cyffredinol disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim 12
Perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn TGAU mewn awdurdodau lleol 14

Gweithredu RHAGORI mewn ysgolion **16**

Cynllunio a rheoli menter RHAGORI 16
Y ffocws ar anfantais economaidd-gymdeithasol 16
Monitro ac arfarnu 17
Cynnal y manteision 18
Ymglymiad rhieni a llywodraethwyr 19

Materion cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol **21**

Rhannu arfer dda 21
Cydlynu ar lefel leol a rhanbarthol 21
Dyrannu cyllid RHAGORI i ysgolion 22

Cyflwyniad

Polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru

1 Ym mis Chwefror 2005, lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bolisi strategol i fynd i'r afael â thlodi plant, o'r enw 'Dyfodol Teg i'n Plant'. Roedd y ddogfen yn golygu bod y llywodraeth yn ymrwymo i haneru tlodi plant yng Nghymru erbyn 2010 a chael gwared arno'n gyfan gwbl erbyn 2020.

2 Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu (Cynllun Gweithredu Tlodi Plant: Cynigion Cyfnod 1) a oedd yn cynnwys cynnig cyffredinol i lywio mentrau a chynigion gwario tuag at gael gwared ar dlodi plant er lles y plant tlotaf a'u teuluoedd.

3 Mae llawer o bolisïau a mentrau addysgol yn deillio o'r ymdrech gyffredinol hon i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys menter RHAGORI. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 'Dechrau'n Deg', wedi'i hanelu at blant 0-3 oed a'u teuluoedd;
- cyflwyno'r cyfnod sylfaen ar gyfer plant 3-7 oed;
- datblygu gwasanaethau integredig i blant mewn awdurdodau lleol;
- darparu lwfansau cynhaliaeth addysgol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed o gartrefi incwm is;
- Llwybrau Dysgu 14-19; a
- sefydlu targedau cenedlaethol ar gyfer tlodi plant, gan gynnwys lleihau cyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim

4 Caiff cyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn aml ei defnyddio fel procsi ar gyfer amddifadedd cymharol oherwydd bod disgyblion yn gallu cael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael budd-dal dynodedig gan y wladwriaeth, fel cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith, o ganlyniad i incwm cymharol isel.

5 Mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn ffurfio cyfran gymharol fawr o'r boblogaeth ysgol. Yn 2006/2007, roedd gan 17.4% o ddisgyblion oedran ysgol statudol hawl i brydau ysgol am ddim (67,559 o ddisgyblion). O'r rhain, roedd 55% mewn ysgolion cynradd, 43% mewn ysgolion uwchradd a 2% mewn ysgolion arbennig.[1]

[1] 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol', Cyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007

6 Nid yw hawl i brydau ysgol am ddim yn golygu mai tynged y plentyn fydd tangyflawni. Mae plant o gefndiroedd cymharol dlawd yn gallu ac yn cyflawni ar y lefel uchaf a gall ysgolion sy'n gwasanaethu cymdogaethau gwael hefyd berfformio yn well nag ysgolion sydd â dalgylchoedd mwy cefnog.

7 Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyswllt ystadegol cryf rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. At ei gilydd, mae cyrhaeddiad disgyblion o deuluoedd tlotach neu sydd mewn gofal yn llawer mwy tebygol o fod yn is na disgyblion eraill. O ganlyniad mae'n aml yn anos i'r disgyblion hyn gael swydd â medrau uchel neu ymgymryd ag addysg bellach neu addysg uwch yn ddiweddarach.

8 Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru a Phlant yng Nghymru wedi nodi bod plant o gefndiroedd di-grefft bum gwaith yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch na'r rheiny o gefndiroedd mwy cefnog.[2] Maent yn amlinellu'r ffactorau canlynol, sydd yn eu barn nhw yn rhwystro dysgu effeithiol mewn cartrefi tlotach:[3]

- diffyg mynediad cymharol at adnoddau, gweithgareddau a chyfleoedd y tu allan i'r ysgol;
- byw mewn tai gorlawn ac annigonol;
- ymglymiad cyfyngedig y rhieni mewn addysg;
- disgwyliadau a dylanwadau'r grŵp cyfoedion;
- effaith stigma, bwlio a theimlo nad ydynt yn cael eu parchu;
- anawsterau emosiynol ac ymddygiad;
- lefelau uwch o anghenion dysgu ychwanegol;
- ymddieithrio o addysg uwchradd; a
- thebygolrwydd cynyddol o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau.

9 At ei gilydd, mae tangyflawni ymhlith plant o deuluoedd tlotach yn ffactor arwyddocaol o ran cyfyngu cyflawniad y bobl ifanc hyn a'u cyfleoedd mewn bywyd, yn ogystal â llwyddiant Cymru fel gwlad sy'n dysgu.

Menter RHAGORI

10 Ym mis Mai 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i ryddhau cyllid i dargedu disgyblion sydd dan anfantais i godi lefel eu perfformiad. Caiff y grant hwn ei adnabod fel RHAGORI, sef 'Gwella Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg'. Cyfanswm y grant i ysgolion o fenter RHAGORI yn 2006-2007 oedd £14.6 miliwn ac yn 2007-2008, roedd yn £14.4 miliwn. Neilltuwyd £1 miliwn hefyd ar gyfer plant y gofelir amdanynt.

[2] 'Mynd i'r Afael â Thlodi Plant yng Nghymru: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion', Dileu Tlodi Plant Cymru a Phlant yng Nghymru, 2006
[3] Gweler uchod a 'Combating child poverty in Wales', Sefydliad Joseph Rowntree, 2007

11 Fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru seilio'r detholiad o ysgolion i gael cyllid RHAGORI ar ddata ar gyfer hawl i brydau ysgol am ddim. Nid oedd y cyllid wedi'i gyfeirio at bob ysgol yng Nghymru lle'r oedd gan ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Byddai ysgolion y mae gan 20% neu fwy o'u disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim yn cael cyllid ar yr amod bod 50 neu fwy o'u disgyblion o oedran ysgol statudol.

12 Yn ystod ail flwyddyn y fenter, roedd 467 o ysgolion cynradd, 63 o ysgolion uwchradd a 32 o ysgolion arbennig yn gymwys i gael cyllid RHAGORI. Mae hyn yn cynrychioli tua 30% o ysgolion cynradd, 28% o ysgolion uwchradd a 75% o ysgolion arbennig.

13 Caiff ysgolion symiau amrywiol o gyllid yn dibynnu ar nifer y dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r cyllid mewn ysgolion cynradd yn amrywio o £11,000 i £30,000 fesul ysgol, o £16,000 i £22,000 fesul ysgol mewn ysgolion arbennig, ac o £47,000 i £220,000 fesul ysgol mewn ysgolion uwchradd.

14 Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ysgolion sy'n cael cyllid RHAGORI. Mae cyfanswm y cyllid RHAGORI i ysgolion ym mhob awdurdod lleol yn amrywio o ryw £113,000 (Sir Fynwy) i ryw £2.2 miliwn (Caerdydd). Nid oes unrhyw ysgolion uwchradd yn cael cyllid mewn pedwar awdurdod lleol (Gwynedd, Sir Fynwy, Powys a Bro Morgannwg) oherwydd nad yw'r un ohonynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael cyllid RHAGORI.

15 Ym mis Mai 2006, anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru lythyr at bob awdurdod lleol yn rhoi manylion yr ysgolion a ddewiswyd a'r cyllid y byddai ysgolion unigol yn ei gael. Gofynnodd i ysgolion baratoi cynlluniau dwy flynedd ar gyfer defnyddio'r grant a chytuno ar y defnydd arfaethedig o'r cyllid gyda'u hawdurdod lleol. Roedd rhestr hefyd o ddefnydd cymwys o'r cyllid a set o feini prawf y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arfarnu pob cynnig yn eu herbyn.

16 Ar gyfer ail flwyddyn y fenter (2007-2008), cafodd ysgolion wybod yn ystod tymor yr haf 2007 am y cyllid RHAGORI y byddent yn ei gael. Ac eithrio lle'r oedd ysgolion wedi cau neu wedi cael eu huno, aeth y cyllid i'r un ysgolion ag yn 2006-2007, ond cynyddodd y symiau yn yr achosion hynny lle'r oedd cynnydd wedi bod yn nifer y dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Fe wnaeth yr ysgolion hynny a oedd yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn gyntaf y disgynnodd eu cyfran prydau ysgol am ddim islaw 20% ar ddechrau'r ail flwyddyn barhau i gael cyllid i gyflawni eu cynlluniau dwy flynedd.

17 At ei gilydd, mae ysgolion wedi datblygu ystod eang a nifer fawr o weithgareddau trwy gyllid RHAGORI. Ymatebodd pob ysgol i gyfle cyllid RHAGORI mewn ffyrdd unigol a datblygodd llawer ystod o weithgareddau amrywiol a oedd yn addas ar gyfer eu cyd-destun eu hunain ac anghenion eu disgyblion.

18 Er enghraifft, cafodd y tair ysgol ganlynol tua £18,000 yr un y llynedd. Mewn un ysgol, mae tri phrosiect wedi'u hanelu at wella medrau disgyblion wrth iddynt ddechrau'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio'r cyllid i gyflogi athro ychwanegol er mwyn iddi allu cynnig lleoedd meithrin ochr yn ochr â rhaglen cymorth i rieni ar ddysgu trwy chwarae. Mewn ysgol arall, mae'r cyllid yn helpu i ariannu aelod o staff i weithio gyda disgyblion a nodwyd mewn grwpiau bach bob dydd i wella eu medrau llythrennedd. Mewn ysgol arall, mae'r ysgol wedi penodi cynorthwyydd addysgu i olrhain absenoldeb a monitro disgyblion sy'n hwyr ar y 'diwrnod cyntaf' er mwyn gwella presenoldeb a phrydlondeb yn gyffredinol.

19 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae'r cyllid yn cefnogi nifer fawr ac ystod eang o weithgareddau ym mhob ysgol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd a gafodd ryw £130,000 y llynedd, mae 10 prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys: gwella cyflawniadau bechgyn trwy fentora gan ddisgyblion hŷn; ariannu cynorthwyydd cymorth dysgu i helpu disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol; cynyddu darpariaeth cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion hŷn; penodi swyddog presenoldeb a gosod system bresenoldeb electronig; hyfforddi gweithiwr cymorth disgyblion mewn dulliau cymorth ymddygiad; darparu seminarau medrau astudio ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni ym Mlwyddyn 11; a sefydlu cwrs ASDAN ar gyfer disgyblion llai abl. Gyda chyllid y flwyddyn flaenorol, sefydlodd yr ysgol ganolfan ar gyfer datblygu medrau peirianneg disgyblion.

20 Y defnydd mwyaf cyffredin a wneir o gyllid RHAGORI o bell ffordd yw ar gyfer buddsoddi mewn cymorth dysgu ychwanegol, yn aml gyda'r bwriad o wella medrau llythrennedd disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn arwain at fwy o waith grwpiau bach mewn dosbarthiadau. Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar gryfhau medrau personol, cymdeithasol ac astudio disgyblion, gan wella eu hymddygiad a'u hagwedd at ddysgu, a gwella eu dyheadau. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r cyllid i ddatblygu a hyfforddi staff, yn enwedig cynorthwywyr cymorth dysgu. Mae llawer yn prynu adnoddau addysgol ychwanegol i gefnogi'r gweithgareddau.

21 Wrth adolygu gwaith ei ysgolion a ariennir gan RHAGORI, fe wnaeth un awdurdod lleol gynnwys y detholiad canlynol o weithgareddau fel enghreifftiau o arfer effeithiol. Mae'r rhestr yn rhoi rhyw argraff o ystod amrywiol y gwaith a wneir ar draws awdurdod lleol;

- datblygu systemau newydd ar gyfer olrhain disgyblion i nodi tanberfformio disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd;
- penodi therapydd chwarae i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion;
- ymgysylltu mwy â rhieni i godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb;
- creu gweithgareddau i annog datrys problemau a chymhwyso medrau newydd mewn mathemateg;
- sefydlu rhaglenni allymestyn i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion;
- sefydlu sesiynau meddwl beirniadol gyda disgyblion;
- datblygu llythrennedd emosiynol disgyblion yng nghyfnod allweddol 2;
- cefnogi ymyriad dwys gan staff dros gyfnodau cymharol fyr i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion;
- defnyddio 'hyfforddwyr dysgu' i helpu disgyblion sydd 'ar yr ymylon' yng nghyfnod allweddol 3;

- ariannu cymorth addysgu ychwanegol i wella medrau mathemategol disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4;

- defnyddio cynorthwyydd addysgu i gefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd; a

- datblygu grŵp meithrin ym Mlwyddyn 9 i wella medrau cymdeithasol, hunanhyder a gallu disgyblion i elwa ar waith grŵp;

Diben yr adroddiad

22 Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn adolygu effaith cyllid RHAGORI gyda ffocws penodol ar ba mor effeithiol oedd wrth helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thangyflawni ymhlith disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

23 Lluniodd Estyn adroddiad rhagarweiniol ar ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2007.[4] Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio yn bennaf ar rôl ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth gynllunio a gweithredu gwaith RHAGORI yn ei gyfnod cychwynnol.

24 Mae'r adroddiad hwn yn symud ymlaen o'r adroddiad cynharach ac yn canolbwyntio ar effaith ac effeithiolrwydd gwaith RHAGORI ar ôl 18 mis cyntaf y cyllid i ysgolion.

25 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau o ymweliadau Arolygwyr EM â sampl o ysgolion ac awdurdodau lleol i ymchwilio i waith RHAGORI a'i arfarnu. Ymwelodd Arolygwyr EM ag 19 o ysgolion cynradd, 10 ysgol uwchradd, chwe ysgol arbennig a phump o awdurdodau lleol.

[4] 'Effaith cyllid RHAGORI: adroddiad interim', Estyn, 2007 (ar gael yn www.estyn.gov.uk)

Prif ganfyddiadau

Yr effaith ar safonau

26 Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau RHAGORI yn gwneud cynnydd da mewn dwy o bob tair ysgol yr ymwelwyd â nhw yn yr arolwg. Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau gweithgareddau ac adnoddau a ariennir gan RHAGORI ac yn elwa arnynt. Mewn llawer o ysgolion, mae rhai disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn o ganlyniad i'w hymglymiad â gwaith RHAGORI. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn tua thraean o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.

27 Mae dysgwyr yn aml yn elwa ar weithio ochr yn ochr ag oedolyn cefnogol mewn gweithgareddau grŵp bach, lle mae'r ffocws ar fodloni eu hanghenion unigol mewn amgylchedd amddiffynnol, sy'n meithrin. Mae dysgwyr hŷn mewn ysgolion uwchradd ac arbennig wedi elwa llawer ar gymryd rhan mewn cyfleoedd galwedigaethol a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

28 Mae llawer o ddysgwyr hefyd wedi gwella eu hymddygiad a'u hagwedd at ddysgu o ganlyniad i'w hymglymiad â gwaith RHAGORI. Caiff hyn effaith ffafriol yn aml ar ddysgu dosbarth cyfan ar gyfer pob disgybl. Nid yw llawer o ysgolion yn mesur y manteision hyn gymaint ag y gallent.

29 Yn genedlaethol, mae bwlch mawr o hyd rhwng perfformiad dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill, ac mae'r bwlch hwn yn ehangu wrth i ddysgwyr fynd yn eu blaenau trwy'r system ysgol. Mae grŵp y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o gael lefelau cyrhaeddiad gwael na disgyblion eraill.

30 Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yng nghyfnodau allweddol 1-3 wedi arafu heb lawer o newid o un flwyddyn i'r llall. Mae'r darlun cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ychydig yn fwy cadarnhaol. Mae mwy o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim bellach yn ennill un cymhwyster TGAU o gymharu â thair blynedd yn ôl ac mae mwy yn ennill sgôr pwyntiau uwch mewn TGAU.

31 Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth o newid sylweddol cyffredinol mewn perfformiad gan ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim o ran ennill pum cymhwyster TGAU graddau A* i C neu fwy ac o ran ennill y dangosydd pynciau craidd. Mewn tua thraean o awdurdodau lleol, mae'r gyfradd gwella wedi arafu neu wedi mynd i'r gwrthwyneb dros y tair blynedd diwethaf. At ei gilydd, mae llawer gormod o amrywiad yng nghyfradd gwella'r dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn TGAU rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru.

32 Nid yw menter RHAGORI wedi bod yn cael ei chynnal yn ddigon hir i farnu a fydd yn cael effaith tymor hir ar y dangosyddion perfformiad hyn.

Gweithredu RHAGORI mewn ysgolion

33 Mewn llawer o ysgolion, nid yw gwaith RHAGORI yn canolbwyntio'n ddigon uniongyrchol ar fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys bod ysgolion yn fwy cyfforddus yn mynd i'r afael â pherfformiad addysgol isel dysgwyr na'u hanfantais economaidd-gymdeithasol. Nid ydynt yn aml yn mesur ac yn dadansoddi perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim ddigon i wybod pa mor dda y maent yn cefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr a'u helpu i gyflawni. Mae rhai yn defnyddio'r cyllid i wella perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim sydd eisoes yn gwneud cynnydd cymedrol neu dda, yn enwedig merched.

34 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio eu cyllid RHAGORI yn briodol, ond mae rhai yn gwario'r grant ar staffio neu adnoddau dysgu sydd ag ychydig o fantais uniongyrchol i ddysgwyr RHAGORI. Nid yw llawer o ysgolion wedi cynllunio'n systematig i gynnal manteision gweithgareddau RHAGORI pan fydd y grant yn dod i ben.

Materion cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol

35 Mae gormod o ysgolion sy'n ymwneud â RHAGORI yn gweithio ar wahân i'w gilydd. Mae'r wefan arfaethedig i hwyluso'r broses o rannu syniadau ac arfer orau ymhell ar ei hôl hi.

36 Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw wedi cefnogi gwaith RHAGORI mewn ysgolion yn dda. Fodd bynnag, mewn un awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef, mae'r gwaith yn dameidiog ac nid oes llawer o gydlynu gweithgareddau.

37 At ei gilydd, mae'r cydlynu rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae'r trefniadau yn gweithio'n dda ac nid oes llawer o ddyblygu ymdrech neu rolau. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae'r cydlynu yn wannach ar y cyfan.

38 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targed cenedlaethol i wella perfformiad addysgol dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim. Nid yw awdurdodau lleol ac ysgolion yn gosod targedau iddyn nhw eu hunain mewn perthynas â pherfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim.

39 Mae dyrannu cyllid i ysgolion sy'n defnyddio'r meini prawf o 20% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a mwy na 50 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn syml ac yn hawdd i'w weinyddu. Mae'n golygu y gall yr ysgolion sydd â chyfrannau cymharol fawr o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim o bosibl elwa ar y cyllid, ac mae ysgolion yn cael swm o gyllid sy'n gallu cefnogi un prosiect defnyddiol neu fwy. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn hefyd yn golygu nad yw ychydig dros draean y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd ac ychydig dros hanner mewn ysgolion uwchradd yn elwa ar gyllid RHAGORI. Nid yw ysgolion bach (sydd â llai na 50 o ddisgyblion) sydd â chyfrannau mawr o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael unrhyw gyllid ychwaith.

Argymhellion

40 Er mwyn gwella manteision menter RHAGORI:

dylai ysgolion:

A1 fesur a dadansoddi perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn fwy systematig o ran cyrhaeddiad, ymddygiad ac agweddau at ddysgu;

A2 gosod targedau ar gyfer adrodd ar dueddiadau ym mherfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim i'w cyrff llywodraethol a'u hawdurdod lleol;

A3 gwneud yn siwr eu bod yn cael trafodaeth gyda'r dysgwyr ynglŷn â'r targedau unigol y maent yn eu gosod ar eu cyfer;

A4 gwneud yn siwr eu bod yn defnyddio cyllid RHAGORI mewn ffyrdd sydd o fantais uniongyrchol i ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u bod yn gallu adrodd ar eu heffaith benodol;

A5 cynllunio'n fwy systematig i gynnal manteision gweithgareddau RHAGORI y tu hwnt i gyfnod grant RHAGORI; a

A6 gwneud yn siwr eu bod yn gwneud y gorau o gyflawniad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim sydd eisoes yn gwneud cynnydd cymedrol neu dda, yn enwedig merched;

dylai'r awdurdod lleol

A7 herio ysgolion i adrodd manteision mwy penodol a mesuradwy gwaith RHAGORI;

A8 monitro gwaith RHAGORI yn agosach mewn ysgolion lle mae'r awdurdod lleol yn gwybod bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn wan;

A9 mesur a dadansoddi perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn fwy systematig a defnyddio'r canlyniadau fel un ffordd o fesur eu llwyddiant wrth fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel;

A10 lledaenu gwybodaeth ac arfer orau mewn perthynas â RHAGORI yn fwy effeithiol mewn awdurdodau lleol a rhyngddynt; a

A11 meithrin cysylltiadau mwy systematig rhwng gwaith RHAGORI a gwaith gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thlodi plant; a

dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A12 osod targed cenedlaethol i wella perfformiad cyffredinol dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a dod ag ef yn agosach at berfformiad gweddill y garfan; a

A13 sefydlu'r wefan a ohiriwyd i gefnogi a dangos gweithgareddau RHAGORI cyn gynted ag y bo modd.

Yr effaith ar safonau

Yr effaith ar gyflawniad a chynnydd

41 Ym mhob ysgol, mae'n anodd i athrawon, rheolwyr, awdurdodau lleol ac arolygwyr asesu effaith uniongyrchol gweithgareddau a ariennir gan RHAGORI ar gyflawniad a chyrhaeddiad y disgyblion sy'n cael eu targedu. Mae amrywiaeth y gweithgareddau a ariennir gan RHAGORI yn creu heriau sylweddol wrth gael trosolwg llawn o waith a ariennir gan RHAGORI a barnu ei effeithiolrwydd yn gyffredinol. Mae disgyblion sy'n cymryd rhan ym menter RHAGORI yn aml yn cymryd rhan mewn ystod o strategaethau ac ymyriadau, y gall pob un ohonynt gyfrannu at gynnydd a chyrhaeddiad gwell. Mae'n aml yn anodd neilltuo un gweithgaredd neu ymyriad fel y prif beth i achosi unrhyw welliant ym mherfformiad disgyblion. Mae hefyd yn anodd asesu effaith llawer o weithgareddau RHAGORI o ran safonau gwell oherwydd nad yw llawer wedi bod yn cael eu cynnal yn ddigon hir i weld tueddiadau clir mewn canlyniadau.

42 Fodd bynnag, yn ystod ymweliadau ag ysgolion, edrychodd arolygwyr ar y dystiolaeth sydd ar gael a ddarparwyd gan yr ysgolion, fe wnaethant ystyried gwaith y disgyblion a siarad â nhw am eu gwaith er mwyn llunio barn am effaith gweithgareddau RHAGORI.

43 At ei gilydd, mae arolygwyr yn barnu bod cynnydd disgyblion RHAGORI o leiaf yn dda mewn ychydig dros ddwy o bob tair ysgol yr ymwelwyd â nhw. I'r rhan fwyaf, mae hyn yn golygu bod y gyfradd y mae dysgwyr a gymerodd ran yn dod yn eu blaenau ychydig yn well na'r disgwyl o ystyried eu hoedran a'u dysgu blaenorol. Dechreuodd llawer o ddysgwyr ymhell y tu ôl i'w cyfoedion, ac roedd ganddynt lawer i ddal i fyny ag ef. Mae eu cynnydd wedi bod yn dda, er y gall dysgwyr, ar ddiwedd y prosiect, barhau i fod islaw eu hoedran cronolegol cyfartalog neu ar ei ôl o ran profion rhifedd a llythrennedd neu fesurau eraill. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd rhesymol tuag at fodloni'r targedau unigol a osodwyd ar eu cyfer ar ddechrau prosiectau RHAGORI. Fodd bynnag, mae cynnydd ychydig llai na thraean y disgyblion yn gyfyngedig er gwaethaf eu hymglymiad â gwaith RHAGORI.

44 Mewn llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae ymgymryd â gweithgareddau RHAGORI wedi arwain at welliannau sylweddol yng ngwaith dysgwyr unigol a'u hagwedd at ddysgu. Mae'n llawer llai cyffredin gweld gwelliannau tebyg ar draws grwpiau cyfan o ddisgyblion RHAGORI, ond mae gwelliannau grŵp cyfan yn digwydd mewn rhai ysgolion.

45 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion unigol sy'n elwa'n gryf ar y mentrau yn amlwg yn gallu dod yn eu blaenau, ond y mae eu perfformiad wedi cael ei rwystro yn y gorffennol oherwydd diffyg hyder, medrau trefnu gwael neu ddiffyg gallu i ymgymryd yn llawn â gweithgareddau dosbarth cyfan. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae disgyblion o'r fath yn aml wedi cael problemau ymddygiad yn y dosbarth, ac mae hyn wedi gwaethygu eu hanhawster wrth geisio dysgu. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa fwyaf ar fwy o sylw â ffocws a sylw unigol gan oedolion. I ddisgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd ac arbennig, mae dysgwyr yn aml yn elwa ar ffyrdd newydd o ddysgu, naill ai trwy gyfleoedd galwedigaethol neu weithgareddau y tu allan i'r ysgol.

46 At ei gilydd, mae cryn dipyn yn fwy o fechgyn na merched mewn prosiectau RHAGORI mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Fodd bynnag, at ei gilydd yng Nghymru, mae nifer y merched a'r bechgyn sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn debyg.

47 Mae'r ffaith bod mwy o fechgyn na merched mewn grwpiau RHAGORI yn adlewyrchu'r ffordd y mae ysgolion wedi canolbwyntio ar dangyflawni yn hytrach nag anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod merched yn perfformio'n well ar y cyfan fel grŵp na bechgyn, mae ysgolion yn ystyried eu bod o dan lai o anfantais yn addysgol, ac felly mae llai o angen ymyriad RHAGORI arnynt na bechgyn. Fodd bynnag, mae cyllid yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim fel procsi ar gyfer amddifadedd economaidd-gymdeithasol, ac nid yw llawer o ferched sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi elwa ar waith a ariennir gan RHAGORI gymaint ag y dylent.

48 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cyfeirio gweithgareddau a ariennir gan RHAGORI at y disgyblion hynny y mae eu cyflawniad yn gymharol isel ac sydd ar ôl eu cyfoedion o ran eu cynnydd, sef y rheiny sydd dan anfantais yn addysgol. Nifer gymharol fach o weithgareddau a ariennir trwy RHAGORI sydd wedi targedu disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, yn enwedig merched, y mae eu cyflawniad yn gymedrol, neu hyd yn oed ar lefel uwchlaw eu cyfoedion, er mwyn gwella eu cyflawniad hyd yn oed ymhellach. Ymddengys bod effaith cyllid RHAGORI ar y grŵp hwn o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gyfyngedig ar y cyfan.

Yr effaith ar agwedd, ymddygiad a medrau

49 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu agwedd well tuag at ddysgu ac at fywyd ysgol yn gyffredinol o ganlyniad i'w hymglymiad â phrosiectau RHAGORI. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd ac mae gwelliant sylweddol yn eu hymddygiad yn aml.

50 Mewn llawer o ysgolion, mae'r dystiolaeth ar gyfer gwelliant yn agwedd ac ymddygiad y dysgwyr yn parhau i fod yn weddol anecdotaidd ac nid yw ysgolion yn aml yn dadansoddi'r holl ddata perthnasol yn ddigon systematig i fesur llwyddiant y mentrau. Mae gan rai ysgolion ddealltwriaeth gadarn o'r effaith ar ddysgwyr oherwydd eu bod wedi casglu gwybodaeth syml, ond perthnasol ac wedi'i dadansoddi yn ofalus. Er enghraifft, nododd un ysgol uwchradd ostyngiad o 50% yn nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol ar ôl i fentrau RHAGORI ddechrau, a mesurodd ysgol arall gynnydd sylweddol yn ymglymiad rhieni o leiafrifoedd ethnig, a nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r ganolfan adnoddau dysgu, o ganlyniad i fentrau RHAGORI penodol.

51 I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, mae mantais fwyaf y gwaith prosiect yn deillio o ymgysylltiad mwy rheolaidd ac agosach ag oedolyn, cynorthwyydd dosbarth fel arfer, ond athro arall weithiau. O bryd i'w gilydd, mae'r fantais yn deillio o gysylltu â disgybl hŷn sy'n gweithredu fel mentor. Dywedodd adroddiad arfarnu un ysgol gynradd: 'yr hyn sydd wedi dod yn gwbl amlwg…yw y bydd plant ifanc sy'n cael trafferth yn yr ysgol, am ba bynnag reswm, yn gwneud cynnydd os ydynt yn cael eu haddysgu mewn grwpiau llai gan gynorthwyydd addysgu sydd â'r amser i flaenoriaethu anghenion disgyblion'.

52 Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr RHAGORI yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ac ymarfer eu dysgu mewn grŵp bach gydag oedolyn cefnogol. Ymddengys bod hyn yn cynyddu eu hyder oherwydd gallant wneud camgymeriadau ac arbrofi â'u medrau wrth siarad, darllen neu ysgrifennu mewn amgylchedd sy'n fwy cysgodol ac amddiffynnol na mewn dosbarth cyfan. Roedd effaith y mentoriaid dysgu hefyd yn gryf mewn llawer o ysgolion uwchradd lle'r oedd dysgwyr yn cael cymorth i ddatblygu targedau dysgu personol a threfnu a rheoli eu gwaith yn well.

53 Mae ymchwil ar ran Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree[5] yn awgrymu bod dysgwyr o gefndiroedd mwy cefnog yn aml yn cael mynediad llawer haws at gyfleoedd i ddatblygu 'hyder preifat' trwy amgylcheddau cefnogol yn y cartref ar gyfer dysgu preifat, fel lleoedd ar gyfer darllen yn ddistaw a mynediad hawdd at lyfrau ac oedolion sy'n dangos diddordeb gweithredol yn nysgu eu plant. Mae'n ymddangos bod y gwaith grŵp bach ochr yn ochr â chynorthwyydd cymorth dysgu mewn llawer o brosiectau RHAGORI yn creu amgylchedd ysgol sy'n helpu i wneud iawn am yr hyn nad yw efallai'n bodoli gartref i lawer o blant.

54 Mae llawer o ysgolion cynradd yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau iaith cynnar a medrau cymdeithasol eu dysgwyr ieuengaf mewn ymgais i wella'r diffyg cymorth ar gyfer datblygu medrau yng nghartrefi'r dysgwyr yn gynnar. Mae'r sylw hwn ar ddatblygu dysgu cynnar a medrau cymdeithasol yn gweithio'n dda mewn llawer o ysgolion cynradd ac mae dysgwyr yn gwella'n dda o fan cychwyn eu proffil gwaelodlin pan fyddant yn dechrau. Mae llawer yn gwella eu gallu i elwa ar waith dosbarth cyfan a grŵp bach. Caiff hyn yn aml effaith ganlyniadol gadarnhaol ar y dosbarth yn gyffredinol.

55 Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio orau pan fyddant yn gweithredu fel hyfforddwyr dysgu ac maent yn cefnogi'r dysgwyr nid yn unig wrth wneud y gwaith o'u blaen ond hefyd wrth drefnu eu gwaith yn fwy cyffredinol a'u helpu i fynd trwy'r diwrnod ysgol mewn ffordd bwrpasol a rheoledig. Yn y gwersi gorau, mae'r athro yn addasu'r gwaith i fodloni anghenion dysgwyr RHAGORI unigol, yn cysylltu'n dda â'r cynorthwyydd addysgu wrth wneud hyn, ac yn darparu'r amgylchedd yn yr ystafell ddosbarth lle gall y cynorthwyydd addysgu roi ystyriaeth lawn i anghenion ac amgylchiadau personol a chymdeithasol disgyblion.

56 Mewn llawer o ysgolion uwchradd ac arbennig yr ymwelwyd â nhw, mae dysgwyr sydd wedi dechrau cael eu dadrithio â dysgu a bywyd ysgol yn gyffredinol yn elwa ar weithio mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai ysgol, er enghraifft, mewn darpariaeth alwedigaethol oddi ar y safle, a chyda phersonél nad ydynt yn bersonél ysgol, fel gweithwyr ieuenctid. Yn y rhan fwyaf o achosion, mewn ysgolion uwchradd ac arbennig, mae'r trefniadau a ariennir gan RHAGORI ar gyfer darparu dewisiadau cwricwlaidd eraill yn gweithio'n dda gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau ac yn elwa ar gyfleoedd galwedigaethol a dysgu y tu allan i'r ysgol.

57 Mewn rhai achosion, yn bennaf mewn ysgolion uwchradd, nid yw dysgwyr yn teimlo eu bod yn ymgysylltu'n llawn trwy weithgareddau RHAGORI. Mae hyn yn aml yn ymwneud â gwendidau yn y gweithgaredd prosiect ei hun, yn enwedig lle mae addysgu neu reoli'r gweithgaredd yn cynnwys diffygion. Mae rhai dysgwyr yn siarad

[5] 'Children researching links between poverty and literacy' gan Mary Kellett ac Aqsa Dar, Sefydliad Joseph Rowntree, Medi 2007

am drefn y targedau gan athrawon a chydlynwyr mewn prosiectau RHAGORI yn hytrach nag unrhyw drafodaeth amdanynt. Mae'r diffyg ymreolaeth ac ymglymiad hwn yn cyfyngu ansawdd y canlyniadau mewn rhai grwpiau RHAGORI mewn ysgolion uwchradd.

Perfformiad cyffredinol disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim

58 At ei gilydd, ym mhob cyfnod allweddol, mae carfan y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio cryn dipyn yn waeth na charfan y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn ystod o ddangosyddion perfformiad.

59 Yn 2007, llwyddodd 63% o'r disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd (Blwyddyn 6) i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pynciau craidd.[6] Mae hyn yn cymharu ag 85% o ddisgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.

60 Yn 2007, llwyddodd 27% o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim i ennill 5 cymhwyster TGAU neu fwy gradd A*-C yn eu blwyddyn olaf o addysg orfodol (Blwyddyn 11). Mae hyn yn cymharu â 56% o ddisgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Dim ond 16% o'r garfan prydau ysgol am ddim a enillodd y dangosydd pynciau craidd ar ddiwedd Blwyddyn 11 o gymharu â 41% o'r rheiny nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim.[7]

61 Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn cynyddu wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae'r graff canlynol yn dangos y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd) a gweddill eu cyfoedion (ddim yn PYDd). Mae'n dangos bod y bwlch rhwng y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn gyffredinol yn ehangu bron ym mhob pwnc wrth i ddisgyblion symud trwy'r system ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae bwlch o 25-30 pwynt canran rhwng y ddau grŵp yn y gyfran sy'n ennill y lefel ddisgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

[6] Mae'r dangosydd pynciau craidd yn ymwneud â pherfformiad mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
[7] 'Cyflawniad academaidd a'r hawl i brydau ysgol am ddim, 2007', Cyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008



62 Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad pob disgybl mewn perthynas â'r prif ddangosyddion perfformiad yng nghyfnodau allweddol 1 i 3 wedi arafu. Mae perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu neu ostwng ychydig bach yn unig mewn perthynas â'r prif ddangosyddion perfformiad.

63 At ei gilydd, nid oes unrhyw arwydd eto o unrhyw newid sylweddol mewn perfformiad yng nghyfnodau allweddol 1 i 3 o ganlyniad i fentrau sydd wedi'u hanelu at wella perfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mewn gwirionedd, mae'r darlun cyffredinol yn 2007 yn edrych yn sefydlog neu'n cynrychioli gostyngiad bach mewn perfformiad ar gyfer disgyblion o gymharu â chanlyniadau yn 2005.

64 Mae'r canlyniadau TGAU dros y tair blynedd diwethaf yn dangos darlun mwy cadarnhaol o ran gwelliant, er ei bod yn anodd nodi unrhyw gyswllt penodol rhwng y gwelliant hwn a menter RHAGORI. Mae'r graff canlynol, at ei gilydd, yn dangos cynnydd cymedrol ym mherfformiad carfanau sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd) a charfanau nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim (ddim yn PYDd) ar draws y prif ddangosyddion perfformiad (h.y. pum cymhwyster TGAU neu fwy graddau A*-C, un cymhwyster TGAU neu fwy gradd A*-G a chyflawni'r dangosydd pynciau craidd).



65 Mae'r gwelliannau cymedrol o ran ennill 5 cymhwyster TGAU 'da' neu fwy neu'r dangosydd pynciau craidd yn aml yn cynrychioli cynnydd cyfrannol mwy ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim nag ar gyfer y rheiny nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim. Er bod cyfran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n ennill pum cymhwyster TGAU 'da' yn 2007 yn isel, sef 26.7%, mae hyn mewn gwirionedd yn cynrychioli gwelliant o 17% o gymharu â 2005 (22.9%). O'i gymharu, fe wnaeth y grŵp nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim wella ryw 7% yn unig dros yr un cyfnod. Mae hyn yn awgrymu bod y newidiadau wedi digwydd mewn ysgolion dros y tair blynedd diwethaf yn cael effaith fach, ond cadarnhaol ar y cyfan ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae hefyd yn tueddu i adlewyrchu'r man cychwyn is a'r cwmpas mwy ar gyfer gwella'r garfan prydau ysgol am ddim yn gyffredinol.

66 Ar ôl 18 mis, nid yw menter RHAGORI wedi bod yn rhedeg yn ddigon hir i ganfod newidiadau mawr ym mherfformiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn erbyn y prif fesurau perfformiad. Bydd canlyniadau ar gyfer 2008 a 2009 yn rhoi tystiolaeth o dueddiadau yn y tymor hir ac yn helpu barnu a yw'r fenter wedi cael effaith ar lefelau cyrhaeddiad dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, gan fod llawer o'r manteision yn ymwneud ag ymddygiad ac agwedd well, efallai na fyddant yn bwydo trwodd yn uniongyrchol i berfformiad gwell yn erbyn meincnodau cenedlaethol.

Perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn TGAU mewn awdurdodau lleol

67 Er nad oes unrhyw dystiolaeth o newid camau mawr ym mherfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn TGAU yn gyffredinol, mae tystiolaeth o welliant mwy arwyddocaol yng nghyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn awdurdodau lleol penodol.

68 Mae'r cynnydd mwyaf o ran ennill pum cymhwyster TGAU 'da' neu fwy gan ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf wedi digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r gyfran wedi cynyddu o ryw 24% i 38% yng Nghastell-nedd Port Talbot ac o ryw 22% i 32% yn Abertawe. O'i

gyferbynnu, ni wnaeth y gyfran wella o gwbl na dirywio mewn wyth awdurdod lleol dros yr un cyfnod. Roedd un ysgol uwchradd neu fwy mewn chwech o'r awdurdodau hyn yn cymryd rhan ym menter RHAGORI (Casnewydd, Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Wrecsam a Sir Ddinbych).

69 Mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn llawer o awdurdodau lleol yn cael trafferth fel grŵp i gyflawni'r dangosydd pynciau craidd ym Mlwyddyn 11 (tri chymhwyster TGAU 'da' mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth). Dim ond un awdurdod lleol (Castell-nedd Port Talbot) sy'n llwyddo i gael dros 25% o'i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim i ennill y dangosydd pynciau craidd TGAU. O'i gyferbynnu, mae'r ffigur yn llai nag 20% mewn 15 awdurdod lleol ac yn llai na 10% mewn dau awdurdod lleol (Casnewydd a Sir Ddinbych) yn 2007.

70 At ei gilydd, mae'r gwelliant mwyaf arwyddocaol wedi digwydd yn y nifer sy'n ennill o leiaf un cymhwyster TGAU graddau A*-G.

71 Yn 2005, gadawodd tua 1,000 o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yr ysgol heb un cymhwyster TGAU neu fwy. Dros y tair blynedd diwethaf, mae hyn wedi lleihau tua hanner i ryw 480 o ddisgyblion. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd cyfran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n ennill o leiaf un cymhwyster TGAU ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2005, dau awdurdod lleol yn unig a lwyddodd i gael 90% neu fwy o'u disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim i ennill o leiaf un cymhwyster TGAU. Erbyn 2007, roedd hyn wedi cynyddu i 13.

72 At ei gilydd, mae llawer gormod o amrywiad yng nghyfradd gwella'r disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn TGAU rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru.

Gweithredu RHAGORI mewn ysgolion

Cynllunio a rheoli menter RHAGORI

73 Mae ymdrech ac ymroddiad penaethiaid a chydlynwyr RHAGORI yn aml yn elfennau allweddol yn llwyddiant gweithgareddau RHAGORI mewn ysgolion. Mae'r prosiectau yn gweithio orau lle mae penaethiaid a chydlynwyr yn defnyddio dull uniongyrchol, yn gyrru'r prosiect yn ei flaen, yn monitro eu canlyniadau yn rheolaidd ac yn dathlu eu llwyddiant.

74 At ei gilydd, mae'r prosiectau wedi cael eu gyrru ymlaen a'u rheoli'n dda yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae arolygwyr yn barnu bod ymdrech, ymroddiad a gweledigaeth rheolwyr yn dda ym mhob ysgol uwchradd a'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac arbennig yn yr arolwg. Mae diffygion mewn rhai ysgolion cynradd ac arbennig, lle nad yw penaethiaid yn dangos llawer o ddiddordeb yn y gwaith prosiect ac mae wedi gadael iddo fynd ymlaen yn rhy hir.

75 Yn y rhan fwyaf o achosion, fe wnaeth ysgolion sefydlu prosiectau RHAGORI mewn ardaloedd lle'r oeddent eisoes yn cynllunio datblygiad, ond lle'r oedd y diffyg cyllid wedi gwneud cynnydd yn araf neu ble'r oedd mentrau wedi methu cychwyn yn dda. I'r rhan fwyaf, arweiniodd hyn at ohebiaeth agos rhwng eu datblygiad arfaethedig a defnyddio cyllid RHAGORI. Mewn rhai ysgolion, arweiniodd y cyllid at weithredu gwaith prosiect yn frysiog ac mae rhai o'r prosiectau hyn yn methu gwneud y cynnydd disgwyliedig oherwydd y diffyg cynllunio digonol ar y dechrau.

Y ffocws ar anfantais economaidd-gymdeithasol

76 Mae gan staff yn gyffredinol ddealltwriaeth gadarn o'r cyswllt rhwng tlodi a chynnydd a chyrhaeddiad addysgol cyfyngedig. Mae gan lawer wybodaeth fanwl am eu cymunedau lleol. O bryd i'w gilydd, gallai staff fod wedi addysgu rhieni'r plant y maent yn awr yn eu haddysgu a'u bod yn sylweddoli ers tro beth yw eu cefndir teuluol a'u hamgylchiadau cyfredol.

77 Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion wedi cael trafferth i wahanu anfantais addysgol oddi wrth anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu syniadau a'u dull ar gyfer mentrau a ariennir gan RHAGORI. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi targedu disgyblion sydd dan anfantais addysgol yn bennaf, yn fwy na'r rheiny sydd ar ei hôl hi ac yn cael trafferth i ymgymryd yn llawn ag addysg.

78 O ganlyniad, mae llawer o ysgolion wedi sefydlu prosiectau neu grwpiau sydd o fudd i grŵp mwy o ddysgwyr na dim ond y rheiny y mae ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim. Fel arfer, mae'r prosiectau a'r grwpiau hyn yn cynnwys llawer o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, ond mewn rhai achosion, nid yw'r grwpiau yn cynnwys llawer neu bob un o'r dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

79 Mewn llawer o achosion, mae'r diffyg diffiniad pendant o gategorïau gwariant cymeradwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi golygu bod rhai ysgolion yn defnyddio cyllid RHAGORI at ystod eang o ddibenion nad ydynt bob tro yn ymwneud yn agos â nodau menter RHAGORI. Mewn rhai achosion yn yr ysgolion yr

ymwelwyd â nhw, yn sgil diffyg eglurder am ddiben cyllid RHAGORI, mae rhai ysgolion wedi prynu ystod eang o eitemau ar y sail eu bod o fantais bosibl ar gyfer addysgu a dysgu dysgwyr sydd dan anfantais.

80 Mae llawer o ysgolion, yn enwedig yr ysgolion uwchradd hynny sydd mewn sefyllfa ariannol gymharol wan, wedi defnyddio'r cyllid i ddarparu adnoddau sy'n gyffredin mewn ysgolion eraill, er enghraifft, defnyddio cynorthwywyr cymorth dosbarth i gefnogi darllenwyr gwan neu ddarparu byrddau gwyn rhyngweithiol. Mewn un ysgol uwchradd, dyrannwyd £50,000 (tua chwarter o holl gyllid RHAGORI yr ysgol) ar gyfer adrannau i wneud cynnig am adnoddau. Yn sgil hyn, cynigiodd adrannau am offer arbenigol, er enghraifft, cyfrifiaduron ar gyfer gwersi astudiaethau'r cyfryngau, goleuadau ar gyfer dosbarthiadau drama, trwyddedau meddalwedd ar gyfer gwaith celf a graffeg. Defnyddiodd meini prawf RHAGORI ar gyfer y cynigion, ond roedd y cyswllt â chyflawni amcanion RHAGORI yn wan.

Monitro ac arfarnu

81 Mae pob ysgol yn gwybod am berfformiad grwpiau penodol amlwg o ddysgwyr, yn enwedig perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae llawer hefyd yn gwybod cryn dipyn am berfformiad eu dysgwyr sy'n lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, nifer fach iawn o ysgolion sy'n ystyried ystadegau yn aml ac yn systematig am gyrhaeddiad eu disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Nid yw'r rhan fwyaf yn cymharu cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim â chyrhaeddiad cyfartalog disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn eu hawdurdod lleol neu yng Nghymru, neu p'un a yw eu perfformiad yn gwella neu'n gwaethygu o un flwyddyn i'r llall. Mae'r un peth yn aml yn wir ar lefel awdurdod lleol.

82 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targed cenedlaethol eto i wella perfformiad addysgol dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae lle hefyd i awdurdodau lleol ac ysgolion wneud mwy i sefydlu targedau clir ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim, i'w monitro ac adrodd arnynt yn fwy systematig.

83 Er hynny, mae llawer o ysgolion wedi sefydlu gwaelodlinau, er enghraifft, sgorau profion darllen safonol, ar ddechrau mentrau RHAGORI, ac wedi edrych ar gynnydd dysgwyr ar hyd y ffordd i weld pa gynnydd y maent yn ei wneud. Mae llawer o ysgolion wedi gosod targedau unigol ar gyfer dysgwyr yn y mentrau i'w cyflawni mewn cyfnod penodol. Mae rhai wedi defnyddio proffiliau dysgwyr ar ddechrau prosiectau i weld eu cynnydd yn fwy systematig wrth ddatblygu medrau ac agweddau personol gwell. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw ysgolion yn casglu cymaint o wybodaeth ag y gallent am ddatblygu'r medrau 'mwy meddal' hyn, er enghraifft, trwy ddefnyddio grwpiau ffocws dysgwyr, a holiaduron sy'n galluogi staff i fonitro a mesur gwelliannau mewn ymddygiad, agwedd a medrau rhyngbersonol.

84 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi arfarnu eu gwaith RHAGORI yn unol â gofynion. Mae llawer o ysgolion wedi cwblhau arfarniadau yn seiliedig ar dempled a ddyfeisiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er bod rhai wedi defnyddio eu ffurflen hunanarfarnu eu hunain. Mae ansawdd y broses o fonitro ac arfarnu prosiectau yn amrywio llawer rhwng ysgolion. Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r arfarniadau yn fanwl, yn drylwyr ac yn arfarnol. Maent yn defnyddio data yn dda, lle bo modd, ac yn aml yn cynnwys astudiaethau achos o unigolion neu grwpiau

ac yn codi materion a phroblemau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, yn y gweddill, mae ansawdd yr arfarnu a'r monitro yn cynnwys diffygion pwysig. Yn yr achosion hyn, mae'r arfarniadau yn aml yn rhy ddisgrifiadol, yn cynnwys gormod o ffocws ar brosesau ac yn anecdotaidd o ran eu natur. Mewn rhai achosion, mae prosiectau unigol yn rhedeg am gyfnodau rhy hir gyda chyfrifon anecdotaidd yn unig am eu llwyddiant ac arfarniad nad yw'n fanwl iawn.

85 Ychydig o arfarnu effaith prosiectau RHAGORI yn seiliedig ar fesurau gwaelodlin cyffredin a geir ar draws AALlau. Mae amrywiaeth gweithgareddau, dulliau a gwaelodlinau RHAGORI yn golygu ei bod yn aml yn anodd sefydlu effaith gwaith RHAGORI mewn termau trylwyr, dadansoddol ar draws awdurdod addysg lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol ac ysgolion benderfynu beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw gystal, beth all fod yn deilwng o efelychu ehangach gan eraill, a beth sy'n werth ei gynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben.

86 Ar lefel uwchradd, ac ar gyfer disgyblion hŷn mewn ysgolion arbennig, efallai y bydd angen mwy o amser i'r gweithgareddau a ariennir gan RHAGORI gael effaith i greu gwelliannau mesuradwy mewn cyrhaeddiad. Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi canolbwyntio o leiaf rhai gweithgareddau RHAGORI ar wella gwaith dysgwyr y disgwylir iddynt gael graddau D neu E mewn TGAU ar hyn o bryd. Y nod yw eu helpu i gael o leiaf gradd C. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mwy o amser i fanteision gweithgareddau RHAGORI ar ddatblygu medrau 'mwy meddal', gael effaith er mwyn sicrhau dysgu gwell, yn aml oherwydd syniadau cynhenid o fethiant a diffyg hyder ymhlith y grŵp oedran hŷn hwn. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi canolbwyntio gormod ar yr hyn y mae'r ysgol ei angen o RHAGORI i fodloni ei thargedau nag ar yr hyn sydd ei angen ar y dysgwyr i fodloni eu hanghenion.

Cynnal y manteision

87 At ei gilydd, mae'r cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd y gwaith prosiect pan ddaw cyllid RHAGORI i ben yn wan. Nid yw hanner yr ysgolion cynradd a'r ysgolion arbennig a thua thraen yr ysgolion uwchradd wedi cynllunio eu strategaethau ymadael neu ffyrdd o ymgorffori nodweddion llwyddiannus ar waith RHAGORI yn eu cyllidebau prif ffrwd pan fydd cyllid RHAGORI wedi dod i ben. Hyd yn oed yn yr ysgolion hyn, gall y rhan fwyaf o benaethiaid a chydlynwyr nodi'r elfennau hynny o'r prosiectau y maent yn credu eu bod gweithio'n dda yn eu barn nhw ac yn dymuno eu cynnal, ond na allant weld ffordd ymarferol ymlaen ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â RHAGORI heb gyllid ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o wir lle defnyddiwyd yr arian i ehangu capasiti staffio i gefnogi gwaith grŵp bach trwy ostwng y gymhareb disgybl-athro.

88 Mae llawer o ysgolion yn dymuno parhau i ariannu'r staff ychwanegol y maent wedi'u cyflogi â chyllid RHAGORI. I lawer, mae'r cynorthwywyr addysgu wedi cael effaith gadarnhaol iawn o ran cyrhaeddiad, ymddygiad ac agwedd well y dysgwyr. Maent wedi galluogi ysgolion i roi cymorth personol â mwy o ffocws i ddysgwyr RHAGORI. Mae dysgwyr nad ydynt yn ddysgwyr RHAGORI hefyd wedi elwa o ganlyniad, naill ai'n uniongyrchol trwy gyswllt â'r cynorthwyydd addysgu neu drwy ymddygiad gwell dysgwyr RHAGORI a oedd yn tarfu ar ddysgu dosbarth cyfan yn y gorffennol.

89 At ei gilydd, po fwyaf o arian a gaiff ysgol, y mwyaf y gall ei wneud â'r arian. Pan fydd digon o arian i allu cyflogi aelod ychwanegol o staff, fel cynorthwyydd cymorth

dysgu, yna fe ymddengys bod yr hyn a gaiff yr ysgol yn ôl yn cynyddu'n sylweddol gan fod hyn yn aml yn arwain at gymarebau disgybl-athro gwell, rheoli dysgu disgyblion RHAGORI yn agosach ac ymgysylltiad uniongyrchol ychwanegol â dysgwyr wrth iddynt ddysgu.

90 Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r cyllid i gefnogi newid mwy sefydliadol, er enghraifft, ailwampio'r cwricwlwm galwedigaethol neu greu cwricwlwm yn seiliedig ar themâu ym Mlwyddyn 7 i gynorthwyo'r broses drosglwyddo ac adfywio'r cwricwlwm. Mewn achosion o'r fath, mae effeithiau mwy parhaus i'r gwersi a ddysgir. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio cyllid RHAGORI ar gyfer datblygiad proffesiynol staff addysgu, ac mae hyn yn golygu y gall manteision RHAGORI gael eu hymgorffori mwy mewn ysgolion ac er mwyn i'r effaith bara y tu hwnt i gyfnod y cyllid.

91 Mae llawer o ysgolion wedi prynu offer ac adnoddau ychwanegol â'u cyllid RHAGORI a bydd y rhain yn aros, er y byddant efallai yn colli eu gwerth dros gyfnod. Lle mae ysgolion wedi penodi staff ychwanegol, bydd rhai ysgolion yn eu cadw trwy ailddyrannu cyllid o gyllideb gyffredinol yr ysgol. Mae gan ysgolion uwchradd yn gyffredinol fwy o hyblygrwydd i wneud hyn nag ysgolion cynradd. Mewn llawer o ysgolion cynradd, lle mae penaethiaid wedi defnyddio'r cyllid i benodi cynorthwywyr addysgu newydd neu ymestyn oriau staff presennol, efallai na fydd y trefniadau yn parhau y tu hwnt i gyfnod y cyllid. Mae llawer o benaethiaid mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweld llawer o brosiectau RHAGORI fel 'prosiectau ar eu pen eu hunain', sy'n cael eu cynnal gan, ac yn dibynnu ar y ffrwd gyllid ar wahân. Nid ydynt yn gweithio i brif ffrydio'r manteision a'r fethodoleg a ddefnyddir.

92 Mae rhai ysgolion ym mhob sector yn methu cael gwerth am arian yn y gwaith prosiect, er enghraifft, nid yw ysgolion cynradd yn edrych ar y ffyrdd mwyaf cost effeithiol o ariannu staff cymorth; nid ydynt yn sicrhau bod staff sy'n cael eu hanfon ar hyfforddiant a ariennir gan RHAGORI yn cyflawni'r manteision yn yr ysgol; neu nid ydynt yn defnyddio'r cyllid i ddiogelu staff rhag colli eu swyddi mewn maes lle mae niferoedd y disgyblion yn gostwng, trwy eu defnyddio o'r newydd ar waith RHAGORI.

Ymglymiad rhieni a llywodraethwyr

93 Mae ysgolion yn gyffredinol yn cyfathrebu'n dda gyda rhieni ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ymglymiad eu plentyn mewn prosiectau a grwpiau arbennig. Fodd bynnag, nifer fach iawn o ysgolion sy'n sôn wrth rieni am y ffaith fod eu plentyn yn cymryd rhan mewn prosiect sydd wedi'i anelu at ddysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae ysgolion yn gyffredinol yn teimlo y byddai hyn yn creu gwarth, y maent yn dymuno ei osgoi.

94 Yn gyffredinol, nid yw ysgolion yn cynnwys y rhieni yn uniongyrchol yng ngwaith RHAGORI. Yn y sampl a arolygwyd gennym, prin yw'r ysgolion sydd wedi defnyddio cyllid RHAGORI i ymgysylltu â rhieni neu ddatblygu prosiectau sy'n anelu at helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant gartref, er enghraifft, trwy eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i helpu eu plentyn i ddysgu yn well.

95 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn deall pwysigrwydd amgylchiadau cartref dysgwyr ar gyfer cynnydd dysgwyr a'u cyfleoedd mewn bywyd, ond nifer fach o ysgolion sydd wedi defnyddio'r cyllid i geisio dylanwadu ar amgylchedd y teulu a'r cartref. Nid yw'r

rhan fwyaf wedi defnyddio cyllid RHAGORI i ymgysylltu'n weithredol â gwasanaethau awdurdod lleol, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill i ddylanwadu ar amgylchedd y cartref a'i wella. Mae hyn yn adlewyrchu'r negeseuon yn adroddiad diweddar Estyn ar ddarpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau â ffocws cymunedol gan ysgolion.[8]

[8] 'Mae gan lawer o adrannau awdurdodau lleol farn gymharol gyfyng am weithio amlasiantaethol. Gan amlaf, nid oes ganddynt drefniadau partneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.' 'Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau â ffocws cymunedol gan ysgolion', Estyn, 2007, tud. 4 ar gael yn www.estyn.gov.uk

Materion cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol

Rhannu arfer dda

96 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu cynadleddau i gefnogi gwaith RHAGORI. Mae'r rhain wedi galluogi staff sy'n cymryd rhan yn RHAGORI i rannu arfer dda, rhwydweithio â'i gilydd a chlywed ystod eang o siaradwyr ar ystod o destunau perthnasol. Mae'r cynadleddau ar gyfer staff awdurdod lleol ac ar gyfer cydlynwyr rhanbarthol wedi bod yn arbennig o fuddiol wrth godi materion ac egluro negeseuon am waith RHAGORI.

97 At ei gilydd, fodd bynnag, mae gormod o staff yn gweithio ar wahân mewn perthynas â RHAGORI. Nid yw llawer o staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith RHAGORI yn eu hysgol eu hunain yn gallu cyfeirio at arfer yn unman arall, naill ai yn eu hardal leol eu hunain neu'n ehangach, ac nid yw llawer ohonynt wedi mynychu cynhadledd RHAGORI.

98 Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu sefydlu gwefan, trwy'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, i roi gwybodaeth i ysgolion am ystod y prosiectau RHAGORI ledled Cymru, i ddangos prosiectau RHAGORI unigol a helpu ysgolion i gysylltu â'i gilydd. Mae'r cynnydd wrth sefydlu'r wefan wedi bod yn araf ac mae'n hwyr yn cael ei rhoi ar waith. Mae hyn wedi cyfyngu gallu ysgolion i gysylltu â'i gilydd, yn enwedig y tu hwnt i'w hawdurdod lleol eu hunain, neu rannu arfer dda a gwybodaeth berthnasol am eu gweithgareddau RHAGORI.

Cydlynu ar lefel leol a rhanbarthol

99 Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn dangos brwdfrydedd ac ymdrech wirioneddol wrth roi RHAGORI ar waith. Mae rhai wedi sefydlu cydlynwyr RHAGORI sydd â'r amser a'r adnoddau i gael effaith ar ddatblygu'r gwaith mewn ysgolion. Mae hyn yn fwy gwir mewn awdurdodau lle mae gwaith RHAGORI yn cynnwys llawer o ysgolion, ac yn llai amlwg mewn awdurdodau lle mae nifer fach o ysgolion yn unig yn cymryd rhan. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu cynadleddau i drafod RHAGORI a dangos enghreifftiau o arfer dda. Mae gan rai astudiaethau achos RHAGORI ar eu gwefannau. Mae llawer yn rhoi cymorth da ar gyfer hyfforddi cynorthwywyr cymorth dysgu.

100 Mae awdurdodau lleol yn gweddu RHAGORI â phrosiectau eraill mewn awdurdodau lleol, fel datblygu grwpiau meithrin, rhwydweithiau dysgu ardal 14-19, ac ati. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion trwy eu gwaith RHAGORI yn adeiladu ar fentrau sydd eisoes wedi'u sefydlu mewn awdurdodau lleol, er enghraifft, gwaith llythrennedd Dal i Fyny a gwaith Sbotolau mewn mathemateg. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn fwy tameidiog mewn un awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef lle nad oes llawer o gydlynu gweithgareddau wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng tlodi ac anfantais addysgol ar y cyfan.

101 Mae awdurdodau addysg lleol wedi monitro prosiectau RHAGORI yn weddol dda gydag ymgynghorwyr cyswllt ysgol, gan gynnal ymweliadau rheolaidd, ac yn aml tymhorol, ag ysgolion lle maent wedi ystyried gwaith RHAGORI yn rhan o'r agenda

i'w drafod â'r pennaeth. Fodd bynnag, mae amrywiaeth y prosiectau ac amrywiaeth y gwaelodlinau a ddefnyddir gan ysgolion wedi ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol weld y cynnydd cyffredinol a wna dysgwyr. Maent wedi dibynnu yn hytrach ar adroddiadau rheolaidd gan ysgolion unigol ar y cynnydd a wna dysgwyr. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn cynnwys data ar ddilyniant, ond mae gormod ohonynt yn parhau i fod yn anecdotaidd ac nid ydynt yn cynnwys dadansoddi trylwyr.

102 Mae'r awdurdodau lleol wedi gwneud cyfraniad pwysig at y cynllunio cychwynnol ar gyfer RHAGORI ar lefel ysgol mewn llawer o leoliadau. Yn fwy diweddar, maent yn dechrau annog ysgolion i fod yn fwy radical yn eu dulliau ac addasu eu cynlluniau presennol, os bydd angen, neu sefydlu cynlluniau newydd os bydd angen.

103 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn herio ysgolion mewn perthynas â'u gwaith RHAGORI. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn helpu ysgolion i gynnal y gwaith prosiect yn hytrach na chanolbwyntio'n weithredol ar ddod o hyd i weithgaredd gwan neu aneffeithiol. Nid yw rhai ysgolion sydd â phrosiectau aneffeithlon ac aneffeithiol wedi cael unrhyw her gan yr awdurdod lleol na'r cydlynydd rhanbarthol. Mae materion capasiti a staffio mewn rhai awdurdodau lleol yn cyfyngu eu heffaith ar fonitro ac ysgogi gwaith RHAGORI mewn ysgolion. Mewn rhai ysgolion cynradd, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn wan, ond nid yw'r ysgolion wedi cael unrhyw gyswllt uniongyrchol â chydlynydd RHAGORI yr awdurdod lleol na'r cydlynydd rhanbarthol.

104 Yn gyffredinol, nid oes digon o gydweithio rhwng ysgolion RHAGORI ar draws awdurdodau lleol. Mae rhai ysgolion uwchradd gormod ar wahân wrth ddatblygu gwaith RHAGORI, yn enwedig lle mai nhw yw'r unig ysgol uwchradd mewn awdurdod lleol (mae hyn yn digwydd mewn chwe awdurdod lleol). Nid yw awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi nodi digon o gyfleoedd ar gyfer cysywllt RHAGORI â gwasanaethau plant, prosiectau a chynlluniau eraill (er enghraifft, Cymorth).

105 Mae'r trefniadau consortiwm mewn rhai awdurdodau lleol yn gadarnhaol ar y cyfan ac wedi gwella effeithlonrwydd a chysondeb yng ngwaith prosiect RHAGORI yn gyffredinol. Fodd bynnag, oherwydd bod gan y consortiwm y capasiti ac yn cael cyllid gan LICC i gefnogi ysgolion RHAGORI, disgwylir i'r awdurdodau addysg lleol ddarparu cymorth mewn ysgol uniongyrchol. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi rhoi llawer iawn o straen ar adnoddau awdurdodau lleol lle bu'n rhaid i staff ymgynghorol/gwella ysgolion ymgymryd â gwaith newydd sy'n gysylltiedig â RHAGORI yn ogystal â'u cyfrifoldebau presennol.

106 At ei gilydd, mae'r broses o gydlynu rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae'r trefniadau yn gweithio'n dda ac nid oes llawer o ddyblygu ymdrech na rolau. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae'r cydlynu yn wannach ar y cyfan ac mae gormod o orgyffwrdd a dyblygu.

Dyrannu cyllid RHAGORI i ysgolion

107 Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dyrannu cyllid RHAGORI i ysgolion lle'r oedd cyfran y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn fwy nag 20% a lle'r oedd mwy

na 50 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar y gofrestr. At ei gilydd, mae'r sbardun 20% yn fecanwaith cymharol syml a hawdd ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion at ddibenion RHAGORI. Mae'n golygu bod y cyllid yn mynd i'r ysgolion sydd â chyfrannau cymharol fawr o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim ac mae ysgolion unigol yn gallu cael cyllid sy'n gallu cefnogi un fenter ddefnyddiol neu fwy.

108 Fodd bynnag, mae'r mecanwaith yn cynnwys nifer o effeithiau negyddol. Mae'n eithrio niferoedd mawr o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim o fanteision posibl gweithgareddau a ariennir gan RHAGORI. Mewn ysgolion cynradd, mae tua thraean o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion nad ydynt yn cael cyllid RHAGORI ac mewn ysgolion uwchradd, mae ychydig dros hanner y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim nad ydynt yn cael y cyllid. Mae hyn yn golygu nad yw tua 13,000 o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd a thua 15,750 mewn ysgolion uwchradd yn elwa ar gyllid RHAGORI.

109 Mae tua 75 o ysgolion cynradd hefyd sydd â llai na 50 o ddisgyblion y mae gan 20% neu fwy o'u disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae gan fwy 30% o'r disgyblion mewn 32 o'r ysgolion hyn a 50% o'r disgyblion mewn 12 ysgol arall hawl i brydau ysgol am ddim. Mewn un ysgol gynradd, mae gan 25 o'r 36 disgybl o oedran ysgol statudol hawl i brydau ysgol am ddim (69%) ac mewn ysgol arall, mae gan 17 o'r 25 disgybl hawl i brydau ysgol am ddim (68%), ond nid yw'r naill ysgol na'r llall yn cael unrhyw gyllid RHAGORI.